WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd o weithio – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 565A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Fflur Jones oedd y sawl a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Crynodeb o’r canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae’r Ymddiriedolaeth wedi croesawu’r cyfleoedd a gynigiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, ond mae’n gwybod bod yn rhaid iddi wneud mwy i ymwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio 7

Er nad yw’n gorff rhagnodedig yn y Ddeddf, mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y manteision o integreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio 7

Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos enghreifftiau o waith cynllunio gwasanaethau cynaliadwy, ond nid yw’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn systematig eto 9

Er gwaethaf capasiti cyfyngedig, mae’r Ymddiriedolaeth a’i chorff comisiynu yn datblygu eu dulliau fel bod yr Ymddiriedolaeth yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd y Ddeddf 12

Atodiadau

Atodiad 1 – ein dull 14

Atodiad 1 – Sylwadau Blwyddyn Un 14

Atodiad 2 – ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i’r argymhellion 16

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yw creu Cymru yr ydym ni oll eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi sut y mae'n rhaid i 44 o gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a gweithio gyda'i gilydd, i wella ymgymeriad â datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel:

> 'y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.'

Mae cyrff cyhoeddus sydd wedi eu cynnwys o dan y Ddeddf (cyrff rhagnodedig) yn cynnwys llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a rhai cyrff noddedig. Mae'n rhaid iddynt bennu amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w bodloni wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel;

> 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu hateb heb gyfaddawdu â gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyfarfod â'u hanghenion eu hunain'.

3 Er mwyn gweithredu yn y modd hwn, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd y 'pum dull o weithio' i ystyriaeth. Dyma nhw:

- Edrych i'r tymor hir fel nad ydynt yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Mabwysiadu dull integredig fel eu bod yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio ag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir; a
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau i'w hatal rhag digwydd neu waethygu.[1]

Yn y modd hwn, nod y Ddeddf yw gwella'r hyn y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud a'r ffordd y maent yn ei wneud fel y gallant wella llesiant Cymru ar y cyd.

4 Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn gweithredu fel gwasanaeth a gomisiynir. Comisiynir ei gwasanaethau gan saith Bwrdd Iechyd Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans. Mae'r rhain yn ffurfio'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Mae'r saith Bwrdd Iechyd yn gyrff rhagnodedig o dan y Ddeddf, ond nid yw'r Ymddiriedolaeth.

[1] Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** 2016

5 Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i weithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella'r ffordd y mae'n gweithio, gan gynnwys sut y gall gyfrannu at lesiant gwasanaeth cyhoeddus a phoblogaeth ehangach.

6 Yn rhan o'i raglen o waith archwilio perfformiad lleol yn yr Ymddiriedolaeth, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad o ddull yr Ymddiriedolaeth o ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn helpu i siapio ei waith cynllunio busnes a darparu gwasanaethau. Mae'r adolygiad yn cynnig adborth i hysbysu dull yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â 'Sylwadau Blwyddyn Un' ehangach yr Archwilydd Cyffredinol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y 44 corff rhagnodedig o ran gweithredu gofynion y Ddeddf.

7 Mae Atodiad 1 yn cynnig rhagor o wybodaeth am ein dull archwilio yn ogystal â manylion cryno am waith Sylwadau Blwyddyn Un ehangach yr Archwilydd Cyffredinol.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y cyfleoedd a'r manteision a gynigir gan y Ddeddf a'r egwyddor datblygu cynaliadwy er gwaethaf y ffaith nad yw'n ofynnol iddi gydymffurfio â nhw. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ehangach wedi dweud bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cynnig cyfleoedd i'r sefydliad weithio mewn ffordd integredig gyda phartneriaid i wella gwasanaethau i bobl Cymru.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod ar gam cynnar o ran sefydlu ei ddull. Mae wedi archwilio yn ystod 2017 sut y gall gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae wedi gwneud hyn wrth ddrafftio ei strategaeth amgylcheddol, ei rhaglen ystadau amlinellol strategol a sut y mae'n ymgysylltu ag agenda ehangach Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

10 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn systematig ar draws y ffordd y mae'n cynllunio ac yn rhedeg ei gwasanaeth eto. Mae'r ffaith nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff rhagnodedig yn y Ddeddf yn rhoi mwy o amser iddi ystyried ei dull. Fodd bynnag, o gofio ei hymrwymiad i ddefnyddio cyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf, dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal momentwm o ran bwrw ymlaen â'i chynlluniau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu amcanion cydweithredol ar sail meysydd allweddol lle mae'r Ymddiriedolaeth yn dymuno gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ei nodau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo i adolygu ei hamcanion corfforaethol yn 2018-19 i gymryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r cynllun strategol ar gyfer GIG Cymru i ystyriaeth.[2]

[2] 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018

11 Mae cyfyngiadau capasiti yn debygol o fod yn rhwystr posibl i'r Ymddiriedolaeth, o ran mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fewnol ac o ran ei gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â phartneriaid lluosog, er enghraifft y rheini yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. O gofio ei statws fel corff nad yw'r rhagnodedig, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu dull pragmatig sy'n cydbwyso materion capasiti ac adnoddau gyda'r manteision a allai ddeillio o fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac ymgysylltu cysylltiedig ag asiantaethau partner.

12 Dylai'r bwriadau comisiynu a gyflwynir i'r Ymddiriedolaeth gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys helpu i siapio a hysbysu cynlluniau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn bwriadu cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei fwriadau comisiynu o 2019-20 ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi ei hymrwymiad i weithio yn unol â'r bwriadau hyn.

13 Caiff y canfyddiadau hyn eu harchwilio'n fwy manwl isod.

# Argymhellion

14 Nid yw'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ystyried ei bwriad datganedig i weithredu yn unol ag ysbryd y Ddeddf, gallai ei chael yn ddefnyddiol gweithredu'r argymhellion canlynol.

Arddangosyn 1: argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn ofalus i beidio ag ôl-weithredu ei gwaith a'i chynllunio i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn gynnar a thrwy gydol ei phrosesau cynllunio. Gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys cymhellion yn ei thempledi cynllunio mewnol er mwyn helpu i gyflawni hyn. |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'r hyn y byddai llwyddiant o ran gweithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf yn ei olygu i'r sefydliad. Gellid cynnwys hyn yn rhai o ddogfennau corfforaethol allweddol yr Ymddiriedolaeth, er enghraifft ei Chynllun Tymor Canolig Integredig a'i strategaeth hirdymor, a allai hefyd gynorthwyo i ehangu dealltwriaeth o'r Ddeddf ymhlith y staff. |
| A3 | O gofio cyfyngiadau capasiti a'i statws fel corff nad yw'n rhagnodedig yn y Ddeddf, dylai'r Ymddiriedolaeth reoli disgwyliadau ymhlith ei phartneriaid ynghylch i ba raddau y gall gymryd rhan ystyrlon mewn trafodaethau ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu'n eglur y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithio partneriaeth o'r fath. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi croesawu'r cyfleoedd a gynigiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae'n gwybod bod yn rhaid iddi wneud mwy i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio

### Er nad yw'n gorff rhagnodedig yn y Ddeddf, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y manteision o integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio

15 Gwnaed ymdrech gennym i ddeall safbwynt yr Ymddiriedolaeth o'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r hyn y mae'n ei olygu i'r staff. Gofynnwyd gennym 'Sut fyddech chi'n disgrifio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch sefydliad?' ac i ddethol y categorïau canlynol yr oedd yn credu eu bod yn berthnasol:

- Gwrthdyniad
- Diangen
- Cyfle
- Rheidrwydd

16 Dangosodd yr Ymddiriedolaeth yn eglur yn ei hymateb ei bod o'r farn bod yr egwyddor yn cynnig 'cyfle' i helpu'r sefydliad 'fynd i'r afael â rhai o'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu' a 'darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy a gwell canlyniadau i ddinasyddion'.

17 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi safbwynt y gall cynllunio gwasanaethau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gorff llai sy'n gweithio fel rhan o system gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae o'r farn bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei helpu i symud y tu hwnt i'w ffyrdd traddodiadol o weithio tuag at ffordd fwy arloesol ac integredig o ddarparu gwasanaethau sydd o fudd i'r defnyddiwr.

18 Mae safbwyntiau'r Ymddiriedolaeth yn debyg i'r rheini a fynegwyd i ni gan lawer o'r cyrff rhagnodedig o dan y Ddeddf[3] yn rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer Sylwadau Blwyddyn Un yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd disgrifiadau'r cyrff cyhoeddus o'r Ddeddf yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y mwyafrif o'r farn bod gan y Ddeddf y potensial i wella 'cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau' ac i 'ysgogi newid cadarnhaol i ddiwylliant ac ymddygiad'.

[3] Darparwyd yr ymateb hwn gan yr Ymddiriedolaeth yng nghyswllt y Ddeddf yn hytrach na'i hegwyddor datblygu cynaliadwy yn benodol.

19 Dywedodd cyrff iechyd eraill hefyd sut y gall y Ddeddf ychwanegu gwerth trwy annog golwg ehangach ar sut i wella iechyd y boblogaeth, gan gynnwys trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynyddu'r pwyslais ar waith ataliol. Roeddent o'r farn bod y Ddeddf yn bwysig i ysgogi ymateb cyfunol i'r heriau hyn. Yn yr un modd, nododd awdurdodau tân ac achub sut y mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle i gryfhau cydweithrediad a chynyddu gwaith ataliol.

20 Aeth rhai cyrff cyhoeddus ymhellach gan ddweud eu bod o'r farn bod y Ddeddf yn 'rheidrwydd'. Roedd cyrff iechyd, llywodraeth ganolog a chyrff noddedig ac awdurdodau tân ac achub yn fwy tebygol, yn gymesur, o'i disgrifio fel hyn. Roedd hyn yn tueddu i fod oherwydd eu bod yn teimlo y gallai'r Ddeddf helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy a gwell canlyniadau i ddinasyddion.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dweud bod y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn 'weddnewidiol'. Mae'n cydnabod ei fod ar gam cynnar o sefydlu ac ymwreiddio ei dull. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddefnyddio'r llwyfan a grëwyd gan y Ddeddf i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau ac i'r ffordd y mae'n gweithio gyda phartneriaid.

22 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod nad yw'n ddichonol nac yn ddymunol parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd â nawr o ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r galw cynyddol sy'n wynebu pob corff iechyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi ymrwymiad i ymateb i anghenion newidiol cymdeithas mewn ffordd fwy prydlon, gyda phwyslais ar reoli galw, gwella iechyd, cynnal annibyniaeth a sicrhau bod gan ei staff y sgiliau gorau posibl i ddarparu gofal lefel uwch yn y gymuned.

## Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos enghreifftiau o waith cynllunio gwasanaethau cynaliadwy, ond nid yw'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn systematig eto

23 Yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2017-20, nododd yr Ymddiriedolaeth ei huchelgais deublyg o fod yn 'wasanaeth a arweinir yn glinigol ac sy'n weithredol effeithiol'. Nododd ymrwymiad hefyd i wella gwasanaethau yn unol â'i weledigaeth o fod yn 'wasanaeth ambiwlans blaenllaw sy'n darparu'r gofal gorau posibl.' Ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i ymgysylltu â'r Ddeddf i ddatblygu ei hymatebion strategol i newidiadau rhagweledig i'r boblogaeth yn well.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd yn erbyn y cynlluniau a amlinellwyd yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Er enghraifft, datblygodd yr Ymddiriedolaeth amcanion cydweithredol mewn sawl maes allweddol lle mae'n teimlo bod yn rhaid iddi weithio gyda phartneriaeth i gyflawni ei nodau, sef:

- Ystadau
- Hyfforddiant ac iechyd galwedigaethol
- Y berthynas rhwng gwasanaethau tân ac ambiwlans

25 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i fynd ar drywydd yr amcanion hyn dros y tymor canolig i'r hirdymor ac mae'n gobeithio y bydd yn sicrhau canlyniadau gwell trwy ganolbwyntio ei gweithgarwch ar weithio mewn partneriaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo i fireinio ei hamcanion corfforaethol trwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a thrwy ystyried y cynllun strategol ar gyfer GIG Cymru.

26 Roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a ragnodwyd o dan y Ddeddf bennu eu hamcanion llesiant cyntaf yn 2017. Mae ein Sylwadau Blwyddyn Un yn amlygu dulliau amrywiol o bennu amcanion ymhlith y cyrff a ragnodwyd o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn nodi sylw gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod 'cyrff cyhoeddus yn ymrwymo i amcanion llesiant sy'n lled debyg i'r amcanion corfforaethol y byddent wedi eu pennu cyn 2017'.

27 Mae ffyrdd eraill y mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati i wneud newidiadau wrth geisio cyflawni ei nod o weithio gan fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cynnwys:

- Polisi Datblygu Cynaliadwy'r Ymddiriedolaeth: Drafftiwyd yn 2017. Mae'r polisi yn disgrifio datblygu cynaliadwy fel 'un o'r egwyddorion sy'n llywio proses cynllunio strategol a gweithredol yr Ymddiriedolaeth' ac yn cydnabod y manteision y gall eu cael i'w pholisïau a'i harferion; a
- Sesiynau Datblygu'r Bwrdd: Yn ystod 2017, cododd yr Ymddiriedolaeth ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhlith aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol trwy ddwy sesiwn Datblygu'r Bwrdd. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn bresennol yn un sesiwn ac

ystyriodd yr aelodau y ffyrdd y gall yr Ymddiriedolaeth gyfrannu at fodloni saith nod llesiant Cymru.

28 Tynnodd yr Ymddiriedolaeth sylw hefyd at enghreifftiau o'i waith presennol sy'n cyd-fynd ag ysbryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio. Er nad yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei defnyddio'n bendant fel ysgogwr ar gyfer yr enghreifftiau hyn, maent yn dangos ystyriaeth o rai o'r pum dull o weithio gan gynnwys integreiddio ac atal. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys:

| Datblygiad Gwasanaeth | Perthnasedd i'r pum dull o weithio |
|---|---|
| Optimeiddio'r ystâd trwy weithio'n agos gyda'r awdurdodau tân ac achub, fel yr Orsaf Tân ac Ambiwlans gyfunol yn Wrecsam. | Cydweithrediad, hirdymor |
| Achrediad llawn i System Rheoli Amgylcheddol safonol ISO14001:2004 ym mis Awst 2016, y bwriedir iddi wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff a defnydd o ynni a'i gost. | Hirdymor, atal |
| Cyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol Aur am ei hymrwymiad i wella iechyd a llesiant ei staff ym mis Ionawr 2018. | Hirdymor, atal |
| Lleihau galw'r rheini sy'n galw am y gwasanaeth yn aml trwy weithio gyda sefydliadau iechyd a goleuadau glas partner a'r unigolion eu hunain. Cydnabuwyd y gwaith hwn trwy Wobr GIG Cymru yn 2016. | Atal, cydweithredu, cyfranogiad |
| Cyflwyno'r cynllun parafeddygon cymunedol sy'n golygu bod parafeddygon yn gweithio'n agos gyda darparwyr gofal sylfaenol. | Atal, cydweithredu, integreiddio |
| Timau ymateb i gwympau. | Atal, cydweithredu |
| Rhoi clinigwyr mewn ystafelloedd galwadau'r heddlu i leihau'r galw am wasanaethau ambiwlans brys. | Cydweithredu, integreiddio, atal |

29 Llywodraethir darpariaeth o wasanaethau'r Ymddiriedolaeth gan Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol: Cytundeb Fframwaith Ansawdd a Chyflawni 2015-18 (y Fframwaith) ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Cytundeb rhwng byrddau iechyd a'r Ymddiriedolaeth ar feysydd darparu gwasanaethau allweddol yw'r Fframwaith, ac mae'n nodi manylion yr hyn sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolaeth a sut y dylai'r Ymddiriedolaeth fodloni'r gofynion.

30 Mae'r Fframwaith wedi ei osod o fewn llwybr sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac yn disgrifio model pum cam ar gyfer darparu gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru. Bwriedir i'r model hwn annog a galluogi cleifion i gael mynediad at wasanaethau trwy foddau eraill, mwy priodol cyn i'w hangen ddod yn un brys

a/neu'n fygythiad i'w bywydau, gan olygu bod angen ymateb gan y gwasanaeth ambiwlans brys.

31 Er nad yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi eu nodi'n bendant fel ysgogwyr sy'n sail i'r Fframwaith a'r model pum cam, mae eu pwyslais ar ganlyniadau a phrofiad y claf yn hytrach na thargedau perfformiad yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio, yn enwedig cyfranogiad, integreiddio ac atal.

32 Er bod yr enghreifftiau hyn yn dangos sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cyfleoedd a goblygiadau ehangach yn ystod ei waith cynllunio gwasanaethau, dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn ofalus i beidio ag ôl-weithredu ei waith i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Er gwaethaf capasiti cyfyngedig, mae'r Ymddiriedolaeth a'i chorff comisiynu yn datblygu eu dulliau fel bod yr Ymddiriedolaeth yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y Ddeddf

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu ei dull o ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei dulliau o weithio

33 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod bod ei hystyriaethau o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r ffordd y mae'n gweithio ar gam cynnar. Mae capasiti yn ffactor arwyddocaol i'r Ymddiriedolaeth yn fewnol ac o ran ei gwaith partneriaeth. O gofio ei statws fel corff nad yw'n rhagnodedig, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi neilltuo'r un pwyslais a'r un lefel o adnoddau i wneud newidiadau i'w harferion sefydliadol ag aelodau rhagnodedig. Er bod hyn wedi effeithio ar y cyflymder y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud newidiadau, roedd y staff i ni siarad â nhw yn fodlon bod y dull hwn yn briodol ac yn gymesur.

34 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi nodi eto sut y bydd llwyddiant o ran ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn edrych. Efallai y bydd yn canfod y byddai disgrifio'r hyn y byddai llwyddiant o ran gweithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf yn ei olygu i'r sefydliad yn ymarfer defnyddiol wrth siapio ei dull.

35 Yn rhan o'n sylwadau blwyddyn un, cyfeiriodd llawer o gyrff rhagnodedig at newidiadau yr oeddent wedi eu gwneud i'w llywodraethiant er mwyn newid eu dulliau o weithio. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â newidiadau llywodraethu fel diweddaru templedi penderfyniadau neu adroddiadau pwyllgor a thempledi cynllun busnes neu ddiweddaru dogfennau fel y Cyfansoddiad, y Cod Llywodraethu Corfforaethol neu'r Cod Ymddygiad.

36 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y gallai ddefnyddio'r pum dull o weithio mewn ffordd fwy pendant wrth gynllunio gwasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried opsiynau fel gwneud mwy o ddefnydd o dempledi cynllunio i ysgogi syniadau a chyflwyno hyfforddiant i'r staff. Byddai newidiadau o'r fath yn annog cyd-ddealltwriaeth o'r manteision a mwy o ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel ysgogwr mwy gweledol ar gyfer prosesau cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau ehangach.

37 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau yn ystod 2018 i sicrhau bod ei chyfeiriad yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy gynnwys cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y panel rhanddeiliaid wrth recriwtio ei Phrif Weithredwr newydd. Nod y panel oedd profi awydd, dull a phrofiad pob ymgeisydd o ran cydweithrediad a phartneriaeth. Gwnaed hyn gyda'r nod o sicrhau bod yr arweinyddiaeth o fewn yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod ac yn croesawu'r cyfleoedd a gynigir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

38 Fel corff comisiynu'r Ymddiriedolaeth, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys hefyd yn cydnabod y swyddogaeth sydd ganddo i'w chyflawni i sicrhau bod y

gwasanaethau y mae'n eu comisiynu gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer eu hardaloedd Bwrdd Iechyd priodol yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

39 Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn cyflwyno bwriadau comisiynu i'r Ymddiriedolaeth y mae'n rhaid iddi eu halinio â'r camau yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans yn cynllunio i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y gyfres nesaf o fwriadau comisiynu strategol ar gyfer 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi ei hymrwymiad i weithio tuag at ofynion newydd yn y bwriadau comisiynu sy'n ymwneud â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ystyried cyfleoedd i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy eglur mewn gwaith partneriaeth

40 Ar adeg y gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yr opsiynau a oedd ar gael iddi o ran gwaith partneriaeth yn unol ag ysbryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

41 Ym mis Ionawr 2018, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Fforwm Cynllunio a Phartneriaethau Strategol mewnol sy'n cyfarfod bob chwe wythnos. Mae aelodau o'r fforwm hwn yn cynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion. Mae'r fforwm yn cynnig llwyfan i aelodau staff allweddol drafod gwaith partneriaeth, gan gynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â phartneriaid o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

42 Yn fwy penodol, cytunodd Tîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ddull y sefydliad o ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2018, er mwyn cymryd rhan mewn trafodaethau strategol ar y ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn teimlo'n gryf y gall gyfrannu at syniadau creadigol ar gyfer dylunio gwasanaethau a allai helpu i fodloni amcanion llesiant ledled Cymru. Fodd bynnag, mae capasiti'r Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â phob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn creu her sylweddol.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried sut orau y gallai ddefnyddio ei hadnoddau mewn ffordd sy'n cynnig gwerth i'r Ymddiriedolaeth ac i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r ddyletswydd llesiant. Mae wedi cytuno i dreialu cyfranogiad mewn pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2018, ar ôl iddi benderfynu pa bedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnig y cyfle mwyaf i ychwanegu gwerth. Ei nod yw gwerthuso ei dull a'r fantais a'r effaith a geir yn ystod 2019-20.

# Atodiad 1

## Ein dull

44 Gwnaed ymdrech gennym ar gyfer yr adolygiad hwn i ddeall safbwyntiau'r Ymddiriedolaeth ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy; yr hyn y mae staff allweddol yn ei gredu y mae gweithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf yn ei olygu iddyn nhw; a sut y maent yn dechrau ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

45 Ystyriwyd y cwestiynau canlynol gennym yn benodol*:*

- I ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy o fudd i'r sefydliad?
- Pa gamau allweddol y mae'r Ymddiriedolaeth wedi eu cymryd i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei hamcanion strategol a gweithredol a'r ffordd y mae'n gweithio?
- Beth mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud i nodi cyfleoedd pellach i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y sefydliad ar gyfer y dyfodol?
- Beth mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud i nodi cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid ac i gyfrannu'n fwy eang at y ddarpariaeth o ddyletswydd llesiant gwasanaethau cyhoeddus?

46 Mabwysiadwyd dull tebyg gennym ni ar gyfer ein hadolygiad i'r un a fabwysiadwyd ar gyfer Sylwadau Blwyddyn Un Swyddfa Archwilio Cymru (isod). Gofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth ymateb i 'alwad am dystiolaeth' a oedd yn cynnig cyfle i'r staff ddweud wrthym am y gwaith y maent yn ei wneud. Cyfwelwyd nifer o Gyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans gennym hefyd ac adolygwyd dogfennau allweddol, fel y Cynllun Tymor Canolig Integredig[4].

## Sylwadau Blwyddyn Un

47 Mae'n ofyniad statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus a ragnodwyd gan y Ddeddf i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a) bennu eu hamcanion llesiant; a

b) cymryd camau i'w bodloni.

48 Yn 2017-18, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgymryd â darn rhagarweiniol o waith cyn cychwyn ei archwiliadau ffurfiol. Adnabyddir y gwaith hwn fel Sylwadau Blwyddyn Un, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018.[5]

[4] Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017-20 ac iteriadau 2018-21

[5] 'Myfyrio ar Flwyddyn Un' Swyddfa Archwilio Cymru

49 Mae’r adroddiad Sylwadau Blwyddyn Un yn darparu sylwadau’r Archwilydd Cyffredinol ar sut y mae cyrff cyhoeddus rhagnodedig wedi ymateb i’r Ddeddf yn y flwyddyn gyntaf. Mae’n rhoi rhywfaint o adborth cynnar, heb ragnodi disgwyliadau o ran sut y dylai cyrff cyhoeddus rhagnodedig fod yn cyflawni eu cyfrifoldebau newydd.

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion

### Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2018 ac ymateb y rheolwyr.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn ofalus i beidio ag ôl-weithredu ei gwaith a'i chynllunio i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn gynnar a thrwy gydol ei phrosesau cynllunio. Gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys cymhellion yn ei thempledi cynllunio mewnol er mwyn helpu i gyflawni hyn. | Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i ysgogi newidiadau i'w harferion cynllunio mewnol ac allanol. | Ydy | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod prosesau datblygu'r CDLl a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys cyfleoedd a chymhellion eglur yn eu templedi a'u canllawiau i sicrhau bod cydweithwyr yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu cynlluniau byrdymor, tymor canolog a thymor hwy. | Mawrth 2019 | Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'r hyn y byddai llwyddiant o ran gweithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf yn ei olygu i'r sefydliad. Gellid cynnwys hyn yn rhai o ddogfennau corfforaethol allweddol yr Ymddiriedolaeth, er enghraifft ei Chynllun Tymor Canolig Integredig a'i strategaeth hirdymor, a allai hefyd gynorthwyo i ehangu dealltwriaeth o'r Ddeddf ymhlith y staff. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi a datgan yr hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy weithio yn unol ag ysbryd y Ddeddf a gall gymryd camau i wireddu'r weledigaeth honno felly. | Ydy | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod ei strategaeth hirdymor yn cyd-fynd yn eglur â daliadau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig o 2019-20 ymlaen yn nodi'n eglur ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i'r Ddeddf, y ffyrdd y bydd unrhyw gynlluniau diwygiedig yn adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf a'r canlyniadau gwirioneddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu rhagweld o ganlyniad i'r dull hwn. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghrynodeb y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac unrhyw gyfathrebu cysylltiedig gyda staff a rhanddeiliaid. | Mawrth 2019 | Y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | O gofio cyfyngiadau capasiti a'i statws fel corff nad yw'n rhagnodedig yn y Ddeddf, dylai'r Ymddiriedolaeth reoli disgwyliadau ymhlith ei phartneriaid ynghylch i ba raddau y gall gymryd rhan ystyrlon mewn trafodaethau ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu'n eglur y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithio partneriaeth o'r fath. | Galluogwyd yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan ei chyfranogiad yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | Ydy | Do | Bydd y Tîm Rheoli Gweithredol yn ailystyried yn ystod hydref 2018 cyfyngiadau capasiti ac eraill y sefydliad ar ei ymgysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn rhan o'r broses werthuso hon, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am safbwyntiau nifer o bartneriaid allweddol (Byrddau Iechyd, gwasanaethau heddlu, tân ac achub, awdurdodau lleol) i hysbysu ei safbwynt ac i sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o ymrwymiad y sefydliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cydnabod yr angen am eiriolaeth ar ran/ystyriaeth o gyfraniad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wahanol | Mawrth 2019 | Y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ mantais a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | agendâu/gweithgareddau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru